

B10. Rheoli risg

Crynodeb o'r Uned

Beth yw cwmpas yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud â chymryd yr awenau wrth sefydlu a gweithredu prosesau effeithiol i reoli risg yn eich sefydliad drwyddo draw. Mae hyn yn ymwneud â nodi, gwerthuso a blaenoriaethu risgiau posibl yn systematig a chyfleu gwybodaeth sy'n galluogi gwneud penderfyniadau priodol a chymryd camau priodol. Mae hefyd yn ymwneud â datblygu diwylliant cyfundrefnol lle mae unigolion yn ymwybodol o risgiau, ond heb fod yn ofn gwneud penderfyniadau ac ymgymryd â gweithgareddau y mae'r risg sy'n gysylltiedig â nhw ar lefel dderbyniol.

At ddibenion yr uned hon, gall 'sefydliad' olygu endid hunangynhwysol fel cwmni sector preifat, elusen neu awdurdod lleol **neu** uned weithredu sylweddol ei maint, sydd ag ymreolaeth sylweddol, o fewn sefydliad mwy.

Ar gyfer pwy mae'r uned?

Argymhellir yr uned ar gyfer uwch reolwyr.

Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae yna gysylltiad rhwng yr uned hon a nifer o unedau yng nghyfres gyffredinol y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer rheolaeth ac arweinyddiaeth, lle mae risg yn ffactor y mae angen ei ystyried wrth gynllunio gweithgareddau ac ymgymryd â nhw.

Sgiliau

Isod rhestrir y prif 'sgiliau' generig y mae angen eu defnyddio wrth reoli risg. Mae cynnwys manwl yr uned yn nodi'n benodol/yn awgrymu'r sgiliau hyn, ac maent wedi'u rhestru yma fel gwybodaeth ychwanegol.

- Gwerthuso
- Adolygu
- Ymgynghori
- Cyflwyno gwybodaeth
- Gwneud penderfyniadau
- Monitro
- Cyfathrebu
- Dylanwadu a pherswadio
- Arweinyddiaeth
- Bod â chynlluniau wrth gefn
- Blaenoriaethu
- Cynllunio
- Adeiladu senario
- Rheoli gwybodaeth
- Cynnwys pobl eraill
- Meddwl yn systematig

B10. Rheoli risg

Canlyniadau perfformiad effeithiol

Mae'n rhaid i chi allu gwneud y pethau canlynol:

1. Sicrhau bod gan eich sefydliad bolisi rheoli risg ysgrifenedig, gan gynnwys manylu ar gyfrifoldebau ar gyfer rheoli risg, sy'n cael ei gyfleu yn eglur ar yn y sefydliad drwyddo draw ac i garfanau eraill perthnasol.
2. Sefydlu meini prawf risg ar gyfer eich sefydliad ac adolygu'r rhain yn gyfnodol, gan geisio ac ystyried barn pobl berthnasol yn y sefydliad drwyddo draw a budd-ddeiliaid.
3. Gwerthuso gweithgareddau cyfundrefnol arwyddocaol sydd eisoes ar waith a rhai y bwriedir eu cynnal a nodi risgiau posibl, natur y risgiau, y tebygolrwydd y byddant yn digwydd a'u canlyniadau.
4. Cynhyrchu proffil risg ar gyfer eich sefydliad a gosod y risgiau a nodir yn nhrefn eu blaenoriaeth, gan ystyried meini prawf risg y sefydliad a gwybodaeth berthnasol arall.
5. Cyfleu gwybodaeth am risgiau a nodir i bobl berthnasol yn y sefydliad drwyddo draw ac i fudd-ddeiliaid, lle bo hynny'n briodol, i alluogi gwneud penderfyniadau a chymryd camau o ran derbyn y risgiau neu ymdrin â nhw.
6. Casglu a gwerthuso gwybodaeth o'r sefydliad drwyddo draw am sut yr ymdriniwyd â risgiau a nodwyd neu sut yr ymdrinnir â nhw, gan gynnwys cynlluniau wrth gefn a roddwyd ar waith.
7. Datblygu diwylliant cyfundrefnol lle bydd pobl yn ymwybodol o risgiau ond yn barod i gymryd risgiau derbyniol, i wneud camgymeriadau ac i ddysgu ohonynt.
8. Sicrhau bod yr uwch reolwyr wedi ymrwymo i'r broses rheoli risg.
9. Sicrhau y dyrennir digon o adnoddau ar draws y sefydliad i gefnogi a galluogi rheolaeth effeithiol ar risg.
10. Monitro ac adolygu effeithiolrwydd y broses rheoli risg yn eich sefydliad, gan nodi gwelliannau posibl a gwneud newidiadau lle bo angen.

Ymddygiad wrth wraidd perfformiad effeithiol

1. Byddwch yn ceisio yn gyson i wella perfformiad.
2. Byddwch yn sensitif i anghenion a buddiannau budd-ddeiliaid ac yn eu rheoli yn effeithiol.

3. Byddwch yn nodi'r wybodaeth y bydd ei hangen ar bobl.
4. Byddwch yn nodi goblygiadau neu ganlyniadau sefyllfa.
5. Byddwch yn defnyddio arddulliau cyfathrebu sy'n briodol i wahanol bobl a gwahanol sefyllfaoedd.
6. Byddwch yn cydbwysu risgiau â'r buddiannau a allai ddeillio o gymryd risgiau.
7. Byddwch yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, rheoliadau'r diwydiant, polisiau'r sefydliad a chodau proffesiynol, ac yn sicrhau bob pobl eraill yn cydymffurfio â'r rhain.
8. Byddwch yn effro i risgiau a pheryglon posibl.
9. Byddwch yn cymryd cyfrifoldeb personol am wneud i bethau ddigwydd.
10. Byddwch yn cydbwysu agendâu ac yn adeiladu consensws.
11. Byddwch yn creu ymdeimlad o bwrpas cyffredin.

B10. Rheoli risg

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall y pethau canlynol:

Gwybodaeth gyffredinol a dealltwriaeth

1. Mathau o risgiau a'r ffactorau sy'n gyrru gwahanol fathau o risgiau
2. Cyfnodau allweddol yn y broses rheoli risg
3. Pwysigrwydd diogelu buddiannau budd-ddeiliaid a sut i ddarganfod eu barn ar risg
4. Pwysigrwydd dangos ymrwymiad yr uwch reolwyr i reoli risgiau
5. Sut i ddatblygu polisi rheoli risg ysgrifenedig a beth ddylai ei gwmpasu
6. Sut i gyfleu'r polisi rheoli risg ysgrifenedig i bobl sy'n gweithio i'r sefydliad a charfanau perthnasol eraill
7. Sut a phryd i adolygu'r polisi rheoli risg ysgrifenedig, gan gynnwys ystyried barn pobl yn y sefydliad drwyddo draw a charfanau perthnasol eraill
8. Beth y gallai meini prawf risg eu cwmpasu a phwysigrwydd ceisio ac ystyried barn pobl berthnasol yn y sefydliad drwyddo draw a budd-ddeiliaid
9. Sut a lle i nodi gweithgareddau cyfundrefnol sydd eisoes ar waith a'r rhai y bwriedir eu cynnal
10. Ffyrdd o nodi risgiau posibl a'u disgrifio yn glir mewn perthynas â gweithgareddau sydd eisoes ar waith a'r rhai y bwriedir eu cynnal, natur y risgiau, y tebygolrwydd y byddant yn digwydd a'u canlyniadau.
11. Pam ei bod yn bwysig cyfleu gwybodaeth am risgiau a nodir i bobl berthnasol yn y sefydliad drwyddo draw ac i fudd-ddeiliaid, lle bo hynny'n briodol, a sut i wneud hynny
12. Y math o benderfyniadau y gellir eu gwneud a'r camau y gellir eu cymryd mewn cysylltiad â risgiau a nodir
13. Pam ei bod yn bwysig casglu a gwerthuso gwybodaeth am sut yr ymdriniwyd â risgiau a nodwyd neu sut yr ymdrinnir â nhw, gan gynnwys cynlluniau wrth gefn, a sut i wneud hyn
14. Ffyrdd o ddatblygu diwylliant cyfundrefnol lle bydd pobl yn ymwybodol o risgiau ond yn barod i gymryd risgiau derbynol
15. Y math o adnoddau sy'n ofynnol i gynyddu ymwybyddiaeth yn y sefydliad drwyddo draw ac ymhlith budd-ddeiliaid, ac i roi'r polisi rheoli risg ar waith yn effeithiol
16. Sut i sefydlu systemau effeithiol ar gyfer monitro proses rheoli risg sefydliad

Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i ddiwydiant/sector

1. Y sector(au) mae'ch sefydliad yn gweithredu ynddo/ynddynt
2. Deddfwriaeth, rheoliadau, canllawiau a chodau ymarfer sy'n benodol i'r sector
3. Datblygiadau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol ac amgylcheddol) cyfredol a rhai sy'n dod i'r amlwg yn y sector(au) y mae'ch sefydliad yn gweithredu ynddo/ynddynt
4. Risgiau sy'n nodweddiadol o fewn y sector(au) mae'ch sefydliad yn gweithredu ynddo/ynddynt

Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i'r cyd-destun

1. Gweledigaeth, gwerthoedd, amcanion a chynlluniau eich sefydliad
2. Cynhyrchion a gwasanaethau eich sefydliad
3. Carfanau perthnasol eraill sydd â budd o reolaeth risg yn eich sefydliad
4. Mecanweithiau ar gyfer ymgynghori â phobl berthnasol o bob rhan o'r sefydliad a budd-ddeiliaid, a sicrhau eu barn ar risg
5. Polisi rheoli risg ysgrifenedig y sefydliad, gan gynnwys cyfrifoldebau a ddyrannwyd ar gyfer rheoli risg, a sut mae'n cael ei gyfleu i bobl sy'n gweithio i'r sefydliad a charfanau perthnasol eraill
6. Meini prawf risg eich sefydliad
7. Gweithgareddau cyfundrefnol arwyddocaol sydd eisoes ar waith a'r rhai y bwriedir eu cynnal a'r risgiau posibl cysylltiedig, gan gynnwys y tebygolrwydd y byddant yn digwydd a'u canlyniadau
8. Proffil risg eich sefydliad a risgiau wedi'u blaenoriaethu
9. Pobl berthnasol o'r sefydliad drwyddo draw, a budd-ddeiliaid, lle bo hynny'n briodol, y dylid rhoi gwybod iddynt am risgiau posibl a nodir
10. Penderfyniadau a wnaed ac a roddwyd ar waith yn y sefydliad drwyddo draw mewn perthynas â risgiau posibl a nodwyd, gan gynnwys unrhyw gynlluniau wrth gefn a roddwyd ar waith
11. Diwylliant eich sefydliad mewn perthynas â risg
12. Sut y dangoswyd ymrwymiad yr uwch reolwyr i reoli risg
13. Adnoddau a ddarparwyd ar gyfer y sefydliad drwyddo draw i gefnogi rheoli risg
14. Systemau sydd ar waith i fonitro ac adolygu effeithiolrwydd proses rheoli risg yn eich sefydliad
15. Gwelliannau a nodwyd a newidiadau a wnaed i broses rheoli risg eich sefydliad